

Bwyta

Arlwyo at bob dant ar draws pob un o’n Lleoliadau

O giniawau tri chwrs neu ragor i fyrbrydau bys a bawd, o farbeciws i fwyd stryd - gall ein tîm o gogyddion mewnol profiadol greu gwledd at bob dant a chyllideb.

Gan ddefnyddio cynhwysion lleol lle bynnag y bo modd cynhyrchir ein holl fwyd i’r safonau iechyd a hylendid uchaf.

Gweinir ein prif brydau ym mwyty hyfryd Myrddin yng Nghaerfyrddin, gyda seddau i hyd at 200 o gynadleddwyr, yn ystod misoedd yr haf caiff cynadleddwyr wneud yn fawr o’r lleoliad patio cain wrth fwynhau seibiant haeddiannol yn ystod cinio neu bryd nos.

Gellir darparu bwffe o bob math i’ch ystafell gynadledda – pob un i gyd-fynd â’ch anghenion a’ch cyllideb.

Beth am ychwanegu picau ar y maen blasus neu Fara Brith traddodiadol neu hyd yn oed ein teisennau lap sgwâr i’ch seibiannau te a choffi Masnach Deg – bydd eich cynrychiolwyr wrth eu boddau!

Yn ystod eich taith yn y gynhadledd, byddwn yn eich tywys drwy’r ystod o opsiynau sydd ar gael er mwyn ei gwneud mor ddi-straen â phosibl.



Lluniaeth

Diodydd Poeth

Te a Choffi	£1.80
Te, Coffi a Bisgedi	£2.30
Picau ar y maen	£1.00
Pasteiod Bach Danaidd	£1.00
Croissant menyyn (gyda menyyn a jam) neu croissant siocled	£1.80
Darnau teisen lap sgwâr	£2.00
Dysgl ffrwythau	£2.00

Diodydd Oer

Jwg sudd oren neu afal	£5.00
Sudd oren neu afal unigol (250ml)	£1.80
Dŵr potel llonydd neu befriol (500ml)	£1.20
Caniau diodydd meddal	£1.20

Rydym yn hapus i ddarparu arlwyo arall, gan gynnwys cinio a gwleddoedd. Rydym yn hyblyg gyda’n bwydlenni a gallwn addasu ein gwasanaethau i ddiwallu anghenion eich gynhadledd unigol. Cysylltwch â ni am fanylion pellach.

* Mae prydau figan neu heb glwten ar gael ar gais

* Mae’r holl brisiau’n amodol ar TAW.



Plât Pori

Mae ein blychau pori blasus yn berffaith ar gyfer pob achlysur ac maent bob amser yn llawn i’r ymyl o’r cynhwysion tymhorol mwyaf ffres, blasus, danteithion cartref.

Angen archebu gyda 5 diwrnod gwaith o rybudd ymlaen llaw.

Plât Pori Ysgafn £5.95

Dewis o frechdanau clasurol
Creision tortilla gyda salsa, hufen sur a dip cennin syfi
Ffrwythau tymhorol ffres neu hambwrdd cartref

Plât Pori Blasus £9.50

Dewis o frechdanau clasurol
Quiche (bacwn cras a chennin neu sbigoglys a feta)
Sgiwerau cyw iâr lemon Groegaidd a saws tzatziki
Tatws newydd gyda crème fraîche a mintys
Ffyn mozzarella mewn briwsion garlleg a dip
Ffrwythau tymhorol ffres neu hambwrdd cartref

Plât Pori Iach £9.50

Detholiad o rapiau clasurol cyw iârTikka cyw iâr a sgiwerau pupur Crudités gyda dip
Sglodion tortilla gyda salsa a dipiau hufen sur
Salad gardd a thomatos ceirios
Ffrwythau tymhorol ffres neu deisen lap gartref



Plât Pori Figan £7.25

Detholiad o frechdanau figan
Falafel gydag aioli
Pakora llysiau gyda saws tomato a mintys
Couscous lemwn a choriander
Salad gardd a thomatos ceirios

Plât Pori Brecwast £5.00

Bap bacwn neu fap selsig
Potel o afal neu sudd oren
Darn o ffrwyth

Plât Pori Bore Da £4.50

Crwst Danaidd neu croissant menyn (gyda menyn a chyffraith) neu Granola
croissant siocled, iogwrt naturiol a phot mêl neu bot ffrwythau ffres
Potel o sudd afal neu sudd oren

Pecyn Bwyd i Fynd £5.50

Dewis o frechdanau clasurol
Darn o ffrwyth, bag o greision a dŵr potel

Pwysig: Mae gwybodaeth am alergenau ar gael ar gais

*** Figan neu heb glwten ar gael ar gais**
*** Yr holl brisiau’n amodol ar TAW**



Caerfyrddin

Beth mae pobl yn ei gofio o bron bob digwyddiad? ... y bwyd!

Yng Nghanolfan Halliwell, rydym yn falch o'n henw da am fwyd blasus. Mae ein cogyddion talentog yn gweithio gyda chynnyrch lleol i greu pryddau gwych i bawb, gan gadw gofynion dietegol unigol a dewisiadau rhyngwladol mewn cof bob amser.

Os hoffech ychwanegu ychydig o sglein at eich arhosiad, gallwn drefnu'r opsiwn o fwyta'n breifat. Rydym yn hyblyg o ran ein bwydlenni a gallwn addasu ein gwasanaethau i ddiwallu anghenion eich cynhadledd unigol.

Bwyty Myrddin

Y Merlin yw ein prif fwyty ar y campws. Mae'n cynnig amrywiaeth o bryddau blasus wedi'u coginio gartref, o frecwastau, ciniawau a phryddau gyda'r nos a pheiriant Coffi Costa.

Amseroedd Agor

8:30am - 11:00am Brecwast

Dydd Llun i ddydd Iau a thrwy gydol dydd Gwener

12pm - 2pm Cinio

Canllaw yn unig yw'r amseroedd uchod. Gallwn addasu amseroedd i weddu i unrhyw grŵp sydd ei angen i sicrhau ein bod yn bodloni eich gofynion.

Caffi'r CWAD

Mae'r CWAD yn cynnal ein Caffi Costa gydag amrywiaeth flasus o baguettes wedi'u llenwi'n ffres, bara fflat, tatws pob a byrbryddau poeth eraill. Beth am fwynhau rhai teisennau lap cartref gyda'ch coffi?!

Amseroedd Agor

(Oriau yn ystod y Tymor)

8:15am - 4.30pm dydd Llun – dydd Iau

8:00am - 4.00pm dydd Iau

Ar agor ar ddydd Sadwrn ar gais

Ar gau ar ddydd Sul

Caffi DA

Mae Caffi DA yn gweini coffi Coaltown wedi'i rostio'n lleol ynghyd ag amrywiaeth o fyrbryddau poeth ac oer.

Amseroedd Agor

(Oriau yn ystod y Tymor)

8am - 4.30pm dydd Llun

8am - 3.30pm dydd Mawrth - dydd Gwener

tAr gau ar ddydd Sadwrn a dydd Sul

Caerfyrddin SA31 3EP

+44 (0) 1267 222252
catering@pcydds.ac.uk

Cwestiynau Cyffredin

Cyffredinol

Oes gennych chi le parcio?

Rydym yn cynnig parcio rhad ac am ddim ar benwythnosau a gyda’r nos ym mhob un o’n lleoliadau, gyda mannau parcio cyfyngedig ar y diwrnod am ddim ond £2.50 y dydd. Gellir talu hwn ar-lein drwy ddilyn y ddolen isod cyn i chi gyrraedd, mae peiriannau talu ac arddangos hefyd ar gael ynghyd ag opsiwn talu dros y ffôn. Euro Car Parks sy’n rheoli ein meysydd parcio.

Oes gennych chi gysylltedd Wi-Fi?

Gall yr holl gynadleddwyr a gwesteion fanteisio ar ein cyswllt Wi-Fi rhad ac am ddim ym mhob un o’n safleoedd. Yn brifysgol rydym yn defnyddio eduroam yn ddarparwr Wi-Fi, felly caiff unrhyw staff neu fyfyrwr sy’n ymweld o sefydliadau addysg eraill fewngofnodi drwy ddefnyddio eu manylion mewngofnodi presennol yn y brifysgol.

Ar gyfer cynadleddau dydd a gwesteion preswyl, darperir tocynnau Wi-Fi gwestai i arweinydd y digwyddiad. Bydd angen taleb ar gyfer pob dyfais.

Pa gyfleusterau sydd ar gael ar y campws?

Mae gan bob campws gyfleusterau diogelwch a derbynfa 24 awr ar y safle lle mae personél cymorth cyntaf ar gael i ymdrin ag unrhyw argyfyngau y tu allan i oriau arferol.

Gellir derbyn danfoniadau drwy’r post yn ystod eich arhosiad, ond cyfrifoldeb y derbynnydd o hyd yw unrhyw daliadau post/cerbydau.

Pa arlwygo sydd ar gael ar y safle?

Mae nifer o gaffis ar y safle ac maent ar gael i westeion yn ystod eu horiau agor.

Cynadleddau a Digwyddiadau

A yw trefnwyr yn cael sefydlu’r noson cyn eu digwyddiad ?

Yn dibynnu ar gytundeb. Efallai y bydd gan drefnwyr fynediad i sefydlu’r noson cynt, ond weithiau gall cyfarfod neu gynhadledd gyda’r nos atal mynediad.

Pa gyfleusterau sydd gennych ar gyfer yr anabl?

Mae gan bob ystafell gynadledda yng Nghanolfan Halliwell fynediad i’r anabl gyda ramp a lifft cadair olwyn. Fodd bynnag, mae gan Ganolfan Lloyd Thomas ystafelloedd gyda mynediad ar gael i bobl sydd â phroblemau symudedd.

Mae system sain gadarn ar gyfer pobl sydd â nam ar eu clyw ar gael yng Nghanolfan Halliwell a Chanolfan Lloyd Thomas.

Oes gennych chi gyfleusterau fideo/telegynadledda?

Oes, mae gennym ni gyfleusterau fideo-a thelegynadledda. Cysylltwch â’r tîm archebu am fanylion pellach.

Gaiff trefnwyr d dod â’u bwyd neu eu cwmni arlwygo eu hunain?

Ni chaniateir i drefnwyr ddod â’u bwyd na’u cwmni arlwygo eu hunain. Mae gan Ganolfan Halliwell a Chanolfan Lloyd Thomas ddarpariaeth arlwygo ar y safle y gellir ei threfnu ymlaen llaw. Boed yn fwffe neu’n

fwrdd llawn, gallwch fod yn sicr bod ein holl brydau bwyd yn cael eu paratoi’n ffres gan ein tîm o gogyddion talentog. Gallwn greu pecyn prydau bwyd sy’n addas i’r holl ofynion – gofynnwch am fanylion ein hopsiynau arlwygo helaeth.

Allwch chi ddarparu ar gyfer gofynion dietegol megis alergeddau bwyd ac ati?

Mae ein cogyddion yn brofiadol iawn am ddarparu prydau sy’n diwallu’r rhan fwyaf o anghenion dietegol. Bydd angen y wybodaeth hon adeg cadarnhau’r archeb. Rydym yn cynnig amrywiaeth eang o fwydlenni sy’n addas ar gyfer unrhyw anghenion. Cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw alergeddau difrifol neu unrhyw ofynion dietegol penodol – byddwn ond yn fwy na pharod i drafod anghenion penodol gyda chi.

Sut ydw i’n talu am fy nigwyddiad?

Bydd eich cwmni’n cael anfoneb ar ôl eich digwyddiad. Anfonir yr anfoneb atoch drwy’r e-bost a gofynnir am daliad o fewn 30 diwrnod ar ôl ei dderbyn. Efallai y bydd angen blaendal ar archebion mwy. Esbonnir pa mor derfynol yw’r rhifau yn ein telerau ac amodau a fydd yn cyd-fynd â’ch ffurflen archebu.

Rydym hefyd yn derbyn taliad â cherdyn credyd ar gyfer eich digwyddiad, gellir cymryd taliad dros y ffôn neu’n bersonol cyn neu ar ddiwrnod eich digwyddiad. Rydym yn lleoliad heb arian parod a dim ond yn derbyn taliad â cherdyn ym mhob un o’n siopau.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Carmarthen SA31 3EP
+44 (0) 1267 222252
Catering@uwtsd.ac.uk

Lampeter SA48 7ED
+44 (0) 1570 424826
Catering@uwtsd.ac.uk

Swansea SA1 5AJ
catering@uwtsd.ac.uk